**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A THAI**
**DYDD MERCHER, 13 RHAGFYR 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 13 Rhagfyr 2023

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Helen Brown (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Gillian Brockley, Tina Claydon, Geoff Collett, Rosetta Dolphin, David Evans, Ray Hughes, Kevin Rush, Dale Selvester and Linda Thew

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Pam Banks

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorydd Bernie Attridge yn bresennol fel arsyllwr

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Cludiant Rhanbarthol); Sean Bibby (Aelod Cabinet Tai ac Adfywio); Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Gwydn, gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael); Prif Swyddog (Tai a Chymunedau); Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai); Rheolwr Darpariaeth Strategol Tai a Rhaglen; Rheolwr Gwasanaeth (Tai ac Atal); Rheolwr Gwasanaeth (Lles Tai a Chymunedau); Rheolwr Strategaeth Dai a Rheolwr Tîm Perfformiad Busnes

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg a Swyddog Gwasanaethau Etholiadol

## 52. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 53. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol ar gyfer ei hystyried, gan ychwanegu nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r eitemau a restrir.

Trafododd y camau oedd yn codi o Atodiad 2 fel a ganlyn:-

- Cafodd y llythyr drafft i Lywodraeth Cymru ei drafod gyda'r cadeirydd ar 12 Rhagfyr a byddai'n cael ei anfon allan yn ddiweddarach yn yr wythnos.

- Trafododd gam oedd yn weddill mewn perthynas â lleoliadau y tu allan i'r sir. Roedd y Swyddog Cyllid wedi casglu'r wybodaeth ac roedd yn aros am gymeradwyaeth i rannu'r manylion.

Daeth i'r casgliad bod holl gamau eraill a ddangoswyd nawr wedi eu cwblhau.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Geoff Collett a'u heilio gan y Cynghorydd Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu gofynnol.

**54. ADRODDIAD CYNNYDD AR RAGLEN TAI AC ADFYWIO STRATEGOL 2 A'R RHAGLEN GYFALAF LLETY TROSIANNOL**

Roedd y Rheolwr Tai a Darparu Rhaglen Strategol wedi darparu adroddiad ar ddarparu'r Rhaglen Strategol Tai ac Adfywio 2 (SHARP2) y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y canlynol:

- Darparu Rhaglen Strategol Tai ac Adfywio 2 (SHARP2) y Cyngor;
- Newidiadau i'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol (GTC) ers yr adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (Medi 2023) a'r Cabinet (Hydref 2023);
- Dyraniad o £1.6 miliwn Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP) Llywodraeth Cymru; a
- Chynnydd ar gaffael cartrefi ychwanegol.

Roedd y rhaglen yn y cam cyntaf ar hyn o bryd yn aros am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru (LlC). Roedd yna raglen 3 cam ar gyfer cymeradwyaeth, ond roedd y Rheolwr Tai a Darparu Rhaglen Strategol yn falch o adrodd bod yr adborth a dderbyniwyd ar hyn o bryd yn gadarnhaol.

Ychwanegodd y Rheolwr Tai a Darparu Rhaglen Strategol bod yna sawl diweddariad i'r rhaglen gan gynnwys costau ychwanegol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer contractau mwy, ble yn anffodus roedd rhai o'r contractwyr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr gan achosi ailbrisio contractau. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r costau ychwanegol ar gyfer Porth y Gogledd a Mynydd Isa a fyddai'n cynrychioli dros 150 o gartrefi newydd.

Roedd y Rheolwr Tai a Darparu Rhaglen Strategol hefyd yn adrodd ar Raglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP) Llywodraeth Cymru a anelwyd at geisio dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd gynted â phosibl, yn bennaf yn targedu llety ar gyfer bobl ddigartref neu bobl mewn llety dros dro. Roedd y Cyngor wedi llwyddo i gael cyllid hyd at £1.5 miliwn, a fyddai'n cael ei dargedu at ddod â 28 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Dywedodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin ei bod yn falch o weld cynigion ar gyfer Maes Glas ond dywedodd y dylai gael ei restru fel 'Lôn Ysgol' ac nid 'Ffordd Ysgol'. Dywedodd y Rheolwr Tai a Darparu Rhaglen Strategol y byddai'n gwneud y newid angenrheidiol.

Hefyd, gofynnodd y Cynghorydd Dolphin pryd fyddai ymgynghori yn digwydd gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd y Rheolwr Tai a Darparu Rhaglen Strategol y byddai ymgynghori yn dechrau yn y flwyddyn newydd gyda phecynnau ymgynghori ffurfiol yn cael eu paratoi a'u darparu.

Gofynnodd y Cynghorydd Linda Thew a oedd yn realistig i'r 28 o dai gael eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024. Roedd y Rheolwr Tai a Darparu Rhaglen Strategol yn dweud bod sawl caffaeliad eisoes wedi eu cwblhau ac roedd yn hyderus y byddai'r 28 o dai yn cael eu cwblhau.

Gofynnodd y Cynghorydd Dale Selvester beth oedd y statws o ran adolygiad Safle Garej Queensferry. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Tai ac Asedau) bod pob safle garej wedi eu harolygu a'u hasesu. Ychwanegodd bod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn gynharach y llynedd yn dangos pa safleoedd garej oedd wedi eu blaenoriaethu ar gyfer dymchwel yn gyntaf. Roedd pob dewis yn cael ei ystyried, gan gynnwys creu mannau parcio ychwanegol a chreu gofod gwyrdd.

Gofynnodd y Cynghorydd Dolphin os gallai'r Aelodau dderbyn copi o ganlyniadau'r adolygiad safle garej o fewn eu wardiau eu hunain. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Tai ac Asedau) y byddai adroddiad diweddariad ar yr adolygiad safle garej yn cael ei ychwanegu i'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Dale Selvester a'i eilio gan y Cynghorydd David Evans.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cynnydd ar ddarparu'r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol 2, Grant Tai Cymdeithasol, Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro a 'Phrynu yn ôl' ei nodi.

## 55. ARGYMHELLION Y GRWP TASG A GORFFEN ADOLYGU TAI GWARCHOD

Dywedodd yr Hwylusydd bod penderfyniad wedi'i wneud gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Thai ar 8 Mawrth 2023 i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Tai Lloches. Roedd hyn yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror 2023, ar ôl ystyried yr adroddiad Adolygu Tai Lloches.

Roedd y Grŵp wedi cyfarfod dair gwaith i ystyried cylch gwaith y Grŵp, y Matrics Sgorio a'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Roedd y cyfarfod cyntaf wedi ystyried a nodi'r Cylch Gorchwyl. Roedd yr ail gyfarfod yn nodi'r matrics wrth symud ymlaen gan gynnwys sut y byddai wardiau deuol aelodau yn cael eu dyfarnu os oedd ganddynt farn wahanol. Roedd y cyfarfod olaf a gynhaliwyd wedi ystyried y cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r argymhellion a wnaed gan y grŵp, i'w ystyried gan y Pwyllgor gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Cabinet.

Dywedodd y Cynghorydd Dale Selvester ei fod yn falch gyda gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen a sut y byddai'r matrics yn gweithio fel rhan o'r adolygiad.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Geoff Collett a'i eilio gan y Cynghorydd Dale Selvester.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen i'w gyflwyno i'r Cabinet ar gyfer ystyriaeth.

## 56. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR BERFFORMIAD CYNLLUN Y CYNGOR 2023-24

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tai ac Asedau grynodeb o sefyllfa Canol Tymor y Cyngor ynglŷn â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a nodwyd ar gyfer 2023/24 gan ychwanegu bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar feysydd perfformiad nad oedd yn cyflawni eu targed ar hyn o bryd.

Ychwanegodd nad oedd yna gamau gweithredu coch ar hyn o bryd yn ymwneud â blaenoriaethau a gweithgareddau'r Cyngor. Fodd bynnag, roedd yna nifer o fesurau oedd wedi eu graddio'n goch. Roedd y mesurau hynny o amgylch gwasanaethau digartrefedd a darparu rhaglen datblygu tai.

Mynegodd y Cynghorydd Bernie Attridge ei bryderon ynglŷn â dangosyddion/mesurau perfformiad oedd yn dangos statws COG coch. Dywedodd am y flaenoriaeth ar gyfer cymorth tai ac atal digartrefedd a gofynnodd pryd fyddai'r Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth ar ba gamau oedd yn cael eu cymryd i wella perfformiad yn y meysydd a amlinellwyd o fewn yr adroddiad. Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) at adroddiadau manwl oedd yn eistedd y tu ôl i'r adroddiadau perfformiad a'r cynlluniau gweithredu a oedd yn cael eu monitro a'u diweddaru'n rheolaidd. Hefyd, cyfeiriodd at yr adroddiad dewisiadau Digartrefedd a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf, oedd yn amlinellu nifer o ddewisiadau a ystyriwyd gan y Cyngor i gynorthwyo gyda chynnydd mewn cyflwyniadau i'r gwasanaeth digartrefedd.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'n bosibl darparu diweddariad i'r Pwyllgor ar leoliad canolbwynt digartrefedd newydd. Roedd y Rheolwr Gwasanaeth (Tai ac Ataliad) yn cynghori bod lleoliad wedi'i nodi a gobeithio y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu gydag Aelodau lleol yn y flwyddyn newydd.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin ac eiliwyd gan y Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawni'r blaenoriaethau a fanylwyd yng Nghynllun y Cyngor 2023/28 i'w cyflawni o fewn 2023/24 yn cael eu cefnogi;

(b) Bod y perfformiad cyffredinol yn ôl mesurau / dangosyddion perfformiad Cynllun y Cyngor 2023/24 yn cael ei gefnogi; a

(c) Bod y Pwyllgor yn cael sicrwydd drwy'r eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd hynny sy'n tangyflawni.

## 57. RHEOLI EIDDO GWAG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai) y ffigyrau a'r gweithgareddau allweddol wrth gyflawni'r cynllun gweithredu ar gartrefi gwag, fel y nodwyd yn y nodyn briffio.

Soniodd am nifer y tai gwag newydd a'r rhai a gwblhawyd, gan gynnwys 40 o eiddo oedd wedi eu cwblhau yn barod i'w dyrannu. Ymhelaethodd hefyd ynghylch y wybodaeth ganlynol yn y nodyn briffio:-

- Nifer y darnau mawr o eiddo gwag
- Cyfanswm y darnau o eiddo gwag a oedd wedi cynyddu ychydig i 235
- Perfformiad y contractwyr presennol
- Y prif resymau dros derfynu.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth oherwydd bod y cynllun gweithredu yn symud i'r cyfeiriad cywir, byddai'r tîm rheoli eiddo gwag nawr yn cwrdd pob chwarter yn hytrach na phob mis, a hefyd bod dyraniad y contractwr nawr wedi cynyddu i 65 eiddo gwag a byddai hyn yn parhau i gynyddu mis fesul mis.

Roedd y Cynghorydd Bernie Attridge yn mynegi ei bryderon ynglŷn â phobl mewn llety dros dro ddim yn cael cynnig yr eiddo gwag yn y fflatiau uchel, y Fflint. Dywedodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) bod y llety yn y fflatiau uchel yn lety gwarchod dynodedig i bobl dros 55 oed. Hefyd, eglurodd nad oedd y proffil llety ar draws y Sir yn cwrdd ag anghenion y proffil o bobl mewn llety dros dro ac roedd dewisiadau i fynd i'r afael â hyn yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf.

Gofynnodd y Cynghorydd Dale Selvester pa gynlluniau oedd ar waith i hybu eiddo â galw isel amdanynt. Dywedodd yr Aelod Cabinet Tai ac Adfywio bod fideos o eiddo wedi eu darparu ac yn cefnogi'r awgrym gan y Cynghorydd Selvester bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i wella gwybodaeth a darparu fideos ar wefan y Cyngor.

Awgrymodd y Cadeirydd, oherwydd gwyliau'r Nadolig, bod y Pwyllgor yn derbyn y nodyn briffio rheoli eiddo gwag yn y cyfarfod mis Ionawr er gwybodaeth yn unig. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r awgrym hwn.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 58. <u>AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL</u>

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 10.53 am)

……………………………………….

**Y Cadeirydd**